Pecyn Dogfen Cyhoeddus

At: Aelodau'r Is-Bwyllgor Trwyddedu

Dyddiad: 5 Ionawr 2024

Rhif Union: 01824 712568

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU, DYDD LLUN, 15 IONAWR 2024** am **10.00 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN**.

Yn gywir iawn

G Williams
Swyddog Monitro

**AGENDA**

**1 PENODI CADEIRYDD**

Penodi Cadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

**2 DATGAN CYSYLLTIADAU**

Yr Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiadau personol neu rai sy'n peri rhagfarn yn y materion sydd i gael eu hystyried yn y cyfarfod hwn.

**CAIS I'W YSTYRIED -**

**3 DEDDF TRWYDDEDU 2003: ADOLYGU TRWYDDED EIDDO - THE MILLBANK, GRANGE ROAD, Y RHYL, SIR DDINBYCH LL18 4RD** (Tudalennau 5 - 46)

Ystyried cais gan Heddlu Gogledd Cymru i Adolygu Trwydded Eiddo a wnaed yn unol ag Adran 51 yn Neddf Trwyddedu 2003 mewn perthynas â The Millbank, Grange Road, y Rhyl (amlinelliad o'r cyflwyniad a'r papurau cysylltiedig wedi'u hatodi).

Sylwer ar y weithdrefn mae'r Is-bwyllgor i'w dilyn (sydd wedi'i hatodi i'r rhaglen hon).

**MEMBERSHIP**

**Y Cynghorwyr**

| | |
|---|---|
| Bobby Feeley | Delyth Jones |
| Hugh Irving | |

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

## Is - Bwyllgor Trwyddedu

## Trefniadau gwrandawiad arolwg
## S.51 Deddf Trwyddedu 2003

| Cam | Disgrifiad |
|---|---|
| 1. | Cadeirydd yr Is - Bwyllgor Trwyddedu yn agor y gwrandawiad arolwg. Croesawu pawb. Cyflwyno cydweithiwr ar yr Is-bwyllgorau a swyddogion. |
| 2. | Cadeirydd yn gwahodd y Swyddog Trwyddedu i gyflwyno cais. |
| 3. | Cadeirydd yn gwahodd yr ymgeisydd (neu gynrychiolydd) i gyflwyno'r cais. |
| 4. | Cadeirydd yn gwahodd (os oes yn bresennol) unrhyw Awdurdod cyfrifol arall i roi sylwadau. |
| 5. | Cadeirydd yn gwahodd Aelodau o'r Is - Bwyllgor Trwyddedu i ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd ac unrhyw Awdurdod cyfrifol sy'n bresennol. |
| 6. | Cadeirydd yn gwahodd eraill i roi sylwadau |
| 7. | Cadeirydd yn gwahodd dalwyr Trwyddedau adeilad i roi sylwadau. |
| 8. | Cadeirydd yn gwahodd Aelodau o'r Is - Bwyllgor Trwyddedu i ofyn cwestiynau i'r daliwr Trwyddedu adeilad ac eraill ac egluro unrhyw bwynt hefo'r ymgeisydd. |
| 9. | Cadeirydd yn gwahodd yr Ymgeisydd (neu gynrychiolydd) i roi datganiad terfynol. |
| 10. | Bydd Aelodau'r Is - Bwyllgor Trwyddedu yn encilio i ystyried eu penderfyniad hefo clerc y gwrandawid ac ymgynghorydd cyfreithiol. |
| 11. | Aelodau'r Is - Bwyllgor Trwyddedu yn dychwelyd i fynegi eu penderfyniad, a'u rhesymau. |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Is-bwyllgor Trwyddedu |
| **DYDDIAD:** | 15 Ionawr 2024 |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Uwch-swyddog Trwyddedu 01824 706433<br>trwyddedu@sirddinbych.gov.uk |
| **TESTUN:** | Cais i adolygu trwydded eiddo o dan Adran 51<br>Deddf Trwyddedu 2003:<br>**The Millbank, Grange Road, y Rhyl**, **Sir Ddinbych. LL18 4RD** |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Mae'r Awdurdod Trwyddedu wedi cael cais i adolygu trwydded eiddo yn unol ag Adran 51 Deddf Trwyddedu 2003.

Cyflwynwyd y cais gan yr Arolygydd Kevin Smith ar ran Heddlu Gogledd Cymru, mewn perthynas â The Millbank, Grange Road, y Rhyl, LL18 4RD.

## 2. CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 Dyma gais i adolygu trwydded eiddo presennol. Gall awdurdod cyfrifol neu barti sydd â diddordeb alw am adolygu trwydded eiddo ond rhaid iddo fod yn berthnasol i un neu fwy o'r pedwar amcan trwyddedu:

- atal trosedd ac anrhefn;
- diogelwch y cyhoedd;
- atal niwsans cyhoeddus, ac
- amddiffyn plant rhag niwed.

2.2 Dylai Aelodau gadw mewn cof bod yn rhaid i unrhyw benderfyniad fod yn unol â (i) Datganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor a'r (ii) Canllawiau y mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi'u cyhoeddi, a'r (iii) gyfraith bennaf.

2.3 Gan weithredu yn rhinwedd yr Awdurdod Trwyddedu, rhaid i Aelodau geisio hyrwyddo'r Amcanion Trwyddedu.

2.4 Dylai Aelodau'r Is-bwyllgor Trwyddedu gadw mewn cof na allant arfer eu

disgresiwn mewn unrhyw achos, dim ond am eu bod yn ystyried bod hynny'n ddymunol, a dylid rhoi rheswm (rhesymau) dros unrhyw benderfyniad a wneir, neu os penderfynir gwyro mewn unrhyw ffordd o'r Protocol, y Polisi neu'r Canllawiau.

## 3. ARGYMHELLION

### 3.1 Penderfyniad yr Is-bwyllgor

Mae'n rhaid i'r Is-bwyllgor, gan ystyried y seiliau ar gyfer Adolygiad, ynghyd â'r sylwadau a wneir, gymryd camau o'r fath (isod) y maent yn eu hystyried yn angenrheidiol er mwyn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

Gall yr Is-bwyllgor:

- addasu amodau'r Drwydded;
- eithrio gweithgaredd trwyddedig o'r Drwydded;
- cael gwared ar y goruchwyliwr eiddo dynodedig;
- gwahardd y Drwydded am gyfnod o hyd at 3 mis;
- dirymu'r drwydded

## 4. GWYBODAETH GEFNDIR

4.1 Mae canllawiau a gyflwynwyd o dan Adran 182 o Ddeddf Trwyddedu 2003, yn datgan:

*"Mae'r achosion a nodir yn Neddf 2003 ar gyfer adolygu trwyddedau eiddo yn cynrychioli amddiffyniad allweddol ar gyfer cymuned lle mae problemau mewn perthynas â'r amcanion trwyddedu yn digwydd ar ôl cymeradwyo neu amrywio trwydded eiddo.*

*Ar unrhyw gam, yn dilyn cymeradwyo trwydded eiddo, gall awdurdod cyfrifol, neu barti sydd â diddordeb, ofyn i'r awdurdod trwyddedu adolygu trwydded yn sgil materion sy'n codi yn yr eiddo mewn perthynas ag unrhyw un o'r pedwar amcan trwyddedu"*

4.2 Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi cyflwyno cais i adolygu trwydded eiddo a gedwir gan Mr Parmvir Singh Bisla.

4.3 Y Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig presennol yn yr eiddo yw Mr Bisla.

4.4 Gellir archwilio copi llawn o'r Drwydded Eiddo bresennol gan gynnwys yr atodlen weithredu gyfredol yn Atodiad 1 yr adroddiad hwn.

4.5 Y sail dros adolygu, a nodir yn y cais, yw:

*"Mae'r eiddo wedi methu â hyrwyddo Amcanion Trwyddedu: Atal Trosedd ac Anhrefn, Atal Niwsans Cyhoeddus a Diogelu Plant rhag Niwed.*
*Ar 1 Medi 2023, derbyniodd Heddlu Gogledd Cymru alwad yn adrodd digwyddiad o ymosodiad cyffredinol - A140763*
*Ar 29 Hydref 2023, derbyniodd Heddlu Gogledd Cymru alwad yn adrodd digwyddiad o anhrefn cyhoeddus yn yr eiddo - A173302*
*Ar 5 Tachwedd 2023, derbyniodd Heddlu Gogledd Cymru alwad yn adrodd digwyddiad o ymosodiad cyffredinol yn yr eiddo - A176556*

4.6 Darparwyd manylion llawn y rhesymau dros yr adolygiad gan Heddlu Gogledd Cymru a gellir eu harchwilio yn Atodiad 1 yr Adroddiad hwn.

4.7 Mae'r cais am adolygiad yn manylu ar dri digwyddiad unigol o anhrefn, i grynhoi:

1. 1 Medi 2023 - adroddiad o ymosodiad cyffredinol yn cynnwys aelod o staff a afaelodd yng ngwddw cwsmer a'u bygwth. Gellir canfod manylion llawn yn Atodiad 2 (B) o fewn y cais am Adolygiad.
2. 29 Hydref 2023 - adroddiad o ddigwyddiad gorchymyn cyhoeddus a oedd yn cynnwys aelodau o staff a chwsmeriaid. Canfu Swyddogion Heddlu a aeth i'r digwyddiad nifer o bobl feddw a dau ddyn ar y llawr tu allan, roedd un yn anymwybodol ac yn gwaedu o anaf i'w ben. Ar ôl gwylio ffilm y Teledu cylch caeëdig o'r digwyddiad, ym marn y Swyddogion Heddlu, roedd anhrefn gan y staff a'r cwsmeriaid, a bod y grym a ddefnyddiwyd gan bob parti yn ormodol, heb amddiffyniad ar gyfer y defnydd o'r grym hwnnw. Mae Swyddogion Heddlu wedi cwestiynu ymddygiad y Rheolwr a'u teulu hefyd, a oedd yn eu barn nhw, wedi ymddwyn yn ymosodol iawn tuag at y cwsmeriaid, gyda phryderon pellach fod un cwsmer yn 17 mlwydd oed, ac wedi cael ei ymosod sawl gwaith. Torrodd unigolyn arall ei fraich mewn dau le. Ar ôl gweld ffilm y Teledu cylch caeëdig, mae'r swyddogion heddlu'n credu fod yr anhrefn wedi ei achosi gan anghydfod yn ymwneud â diodydd yn y bar rhwng staff a chwsmeriaid, ac wedi mynd i'r pwynt lle'r oedd tri chwsmer a staff/aelodau o'r teulu yn cwffio, heb reolaeth gan y tîm rheoli. Gellir canfod manylion llawn o'r digwyddiad yn Atodiad 2 (C-E)
3. 5 Tachwedd 2023 - adroddiad o gwffio tu mewn i'r eiddo rhwng staff a chwsmeriaid, a bod un person wedi cael ei dagu a'i bwnio gan aelod o staff. Wrth ymchwilio ymhellach, canfuwyd fod Deiliad y Drwydded Eiddo, Mr Bisla, wedi anfon pedwar cwsmer tu allan, ac wedi ymosod arnynt, gan arwain at un cwsmer yn troi

ei arddwrn ac un arall yn torri ei fys.

4.8 Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi cyflwyno tystiolaeth o’r Teledu cylch caeëdig o’r digwyddiad ar 29 Hydref 2023 i gefnogi eu cais a fydd yn cael ei wylio yn y gwrandawiad.

4.9 Mae Swyddogion Heddlu wedi mynegi pryder gwirioneddol mewn perthynas ag ymddygiad y staff yn yr eiddo ac wedi nodi y dylid dirymu’r Drwydded Eiddo.

4.10 Nodwyd ymhellach nad oedd Heddlu Gogledd Cymru na’r Awdurdod Trwyddedu wedi cael eu hysbysu gan y Deiliad Trwydded Eiddo ei fod yn cael hi’n anodd rheoli ymddygiad cwsmeriaid.

4.11 O ystyried difrifoldeb y ddau ddigwyddiad, nododd Heddlu Gogledd Cymru nad yw’r eiddo’n cael ei reoli’n briodol a bod Deiliad y Drwydded Eiddo a staff cyfredol wedi bod yn rhan o’r digwyddiad, a’r lefel o anhrefn a oedd yn gysylltiedig â nhw, ac o ganlyniad maent yn gwneud cais am ystyriaeth i ddirymu’r Drwydded Eiddo yn sgil methiant i gydymffurfio â Deddf Trwyddedu 2003, a methiant i hyrwyddo’r amcanion Trosedd ac Anhrefn ac Amddiffyn Plant rhag Niwed yn benodol.

4.11.1 <u>Deddf Trwyddedu 2003 – gwybodaeth/gofynion</u>

Pan mae cais y cael ei gyflwyno ar gyfer adolygu trwydded eiddo, rhaid i gopi llawn o’r cais (ac atodiadau) gael eu darparu i’r awdurdodau cyfrifol a deiliad y drwydded eiddo.

4.12 <u>Rhybudd Cyhoeddus</u>

4.12.1 Os yw cais i adolygu wedi cael ei dderbyn gan yr Awdurdod Trwyddedu, mae’n ofynnol o dan y Ddeddf fod hysbysiad am y cais yn cael ei arddangos, ar yr eiddo dan sylw, ac ym mhrif swyddfeydd yr Awdurdod Trwyddedu am leiafrif o 28 diwrnod olynol.

4.13 <u>Sylwadau Perthnasol</u>

4.13.1 Nid oes unrhyw sylwadau pellach wedi’u derbyn gan Awdurdodau Cyfrifol nac aelodau o’r cyhoedd mewn ymateb i’r cais i Adolygu.

4.14 <u>Ystyriaethau a Materion sy’n berthnasol i’r Cais</u>

4.14.1 Wrth ystyried y cais, dylai’r Aelodau roi ystyriaeth i’r canlynol: -

- Sicrhau cydbwysedd rhwng buddiannau perchnogion, gweithwyr, cwsmeriaid a chymdogion yr eiddo.

4.15 Canllawiau / Amcanion Trwyddedu

4.15.1 Mae'r sylwadau perthnasol yn ymwneud â'r amcanion trwyddedu.

Wrth ystyried y cais hwn, cyfeirir yr Is-bwyllgor at y Canllawiau a gyhoeddwyd dan Adran 182 o Ddeddf Trwyddedu 2003:

- Trosedd ac Anrhefn **Adrannau 2.1 i 2.6**
- Atal iwsans cyhoeddus **Adrannau 2.15 i 2.21**
- Amddiffyn plant rhag niwed - **Adrannau 2.22 i 2.32**

4.16. Datganiad Polisi Trwyddedu - y Broses Adolygu

4.16.1 Wrth ystyried y cais hwn, cyfeirir yr Is-bwyllgor at Ddatganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor:

- Trosedd ac Anrhefn **Adran 3.1**
- Atal niwsans cyhoeddus **Adran 3.3**
- Amddiffyn plant rhag niwed - **Adran 3.4**

4.16.2 Dylai'r Aelodau hefyd gadw mewn cof bod yn rhaid iddynt ystyried y materion canlynol wrth benderfynu'r cais yn unol â'r Ddeddf Trwyddedu –

- Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998, sy'n rhoi dyletswydd arno i atal/lleihau trosedd ac anhrefn yn yr ardal
- Rheolau cyfiawnder naturiol y gyfraith gyffredin
- Darpariaethau Deddf Hawliau Dynol 1998

**5.0 SYLWADAU'R SWYDDOGION**

5.1 Mae Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad wedi cyflwyno'r sylwadau canlynol i gynorthwyo Aelodau gyda'u hystyriaethau.

5.2 Dylai aelodau nodi, unwaith y bydd camau, fel y manylir arnynt yn Adran 3 yr adroddiad hwn wedi'u cymryd a bod penderfyniad yn cael ei wneud, nid yw penderfyniad yr Awdurdod yn cael effaith ar unwaith. Bydd unrhyw benderfyniad ond yn cael effaith pan fydd y cyfnod i wneud apêl wedi dod i ben neu, os yw apêl yn cael ei gyflwyno, neu pan fydd apêl yn

cael ei ddiystyru.

5.3 Dylai Aelodau ystyried y Canllawiau a Datganiad Polisi Trwyddedu’r Cyngor yn drylwyr, ac yn enwedig felly’r meysydd a nodir yn yr adroddiad hwn. Dylai Aelodau gadw mewn cof na ddylid gwyro oddi wrth y Polisi ond ar sail tystiolaeth/rheswm da.

5.4 Atgoffir Aelodau'r Is-bwyllgor Trwyddedu o'r angen i roi rhesymau dros eu penderfyniad.

5.6 Atgoffir aelodau y bydd yn rhaid atodi unrhyw amod y cytunir i fod yn berthnasol ac yn gymesur at y Drwydded Eiddo.

5.7 Dylai aelodau fod yn ymwybodol wrth ystyried amodau diwygiedig i'w atodi i'r Drwydded Eiddo, bydd angen dileu unrhyw amod sy'n bodoli eisoes ac sydd o natur debyg.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag